## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Bwriedir i'r polisi fod o fudd i iechyd y cyhoedd ac nid yw wedi'i lunio i gynyddu anfantais rhwng unigolion neu grwpiau, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae 40% o'r bwyd a diod[1] sy'n cael eu prynu mewn siopau yn y DU yn cael eu gwerthu fel rhan o gynnig arbennig ac mae'r tactegau hyrwyddo hyn yn fwyaf cyffredin ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr neu halen, er enghraifft bisgedi (33.9%) a melysion (36.1%)[2]. Nid yw defnyddwyr yn prynu bwyd i'w storio wrth gefn fel arfer[3], er eu bod yn bwriadu gwneud hynny o bosibl, ac yn gyffredinol mae prynu eitemau bwyd ychwanegol yn arwain at fwyta mwy o fwyd a chaloriau. Gall ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim annog pobl i yfed gormod ohonynt hefyd. Mae diodydd wedi'u melysu â siwgr yn tueddu i beidio â bodloni teimladau llwglyd o'i gymharu â bwyd solet. O ganlyniad, gall cyfanswm y diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr sy'n cael eu hyfed gynyddu tra gall cyfanswm y bwyd sy'n cael ei fwyta ac sy'n cynnwys mwy o galorïau maethol leihau, gan arwain at ennill pwysau a gordewdra cynyddol dros amser[4]. Drwy gyfyngu ar ail-lenwi diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector y tu allan i'r cartref a hyrwyddo cynhyrchion penodedig sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr o fewn manwerthwyr bwyd, nod y Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 yw:

- Lleihau'r gorddefnydd o gynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen sy'n debygol o arwain at gael gormod o galorïau a thros amser, ennill pwysau, gan leihau'r effaith ar eitemau bwyd a brynir nad ydynt yn cyfrannu at ordewdra plentyndod;
- Newid pwyslais y cynigion tuag at opsiynau iachach a sicrhau bod cymaint â phosibl o'r cynhyrchion iachach sydd ar gael drwy gynnig arbennig ar gael, i'w gwneud yn haws i rieni wneud dewisiadau iachach wrth siopa ar gyfer eu teuluoedd.

Mae'r dull hwn yn rhan allweddol o'r ymrwymiadau a nodir yn ein strategaeth ddeng mlynedd Pwysau Iach: Cymru Iach.

Rydym yn disgwyl i'r polisi hwn gael effaith gadarnhaol neu niwtral ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac ar bobl mewn gwahanol grwpiau economaidd-

[1] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2015). Sugar reduction: from evidence into action
[2] Kantar Worldpanel Take Home Purchasing | 52we data to 29 Dec 19
[3] Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2015). Sugar reduction: from evidence into action
[4] Sefydliad Iechyd y Byd, 2015. Guideline: Sugar intake for adults and children

gymdeithasol. O ran oedran y defnyddiwr, mae dadansoddiad gan Kantar yn dangos bod pob oedran yn ymateb i gynigion[5]. Ar y cyfan, mae'r grwpiau oedran 35+ yn prynu mwy o eitemau sydd ar gael drwy gynnig arbennig, gyda'r rhai 45-54 oed yn gwario mwy ar eitemau sydd ar gael drwy gynnig arbennig o fewn y demograffig hwn er bod gwahaniaethau ymddygiadol cyffredinol yn ôl oedran yn fach. Mae'r dystiolaeth yn amlygu'r ffaith bod aelwydydd â phlant yn gwario mwy ar gynigion o'i gymharu â'r rhai heb blant, fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth yn eithaf bach[6]. Gan fod gordewdra'n gyffredin gydol oes, nod y polisi yw bod o fudd i bobl o bob oed. Bwydydd cyfyngedig o dan y ddeddfwriaeth yw'r rhai sy'n cyfrannu'n fwyaf sylweddol at lefelau gordewdra mewn plentyndod i gefnogi pobl i fabwysiadu deiet iachach o oedran cynnar.

Mae rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o fod dros bwysa a gordewdra. Er enghraifft, mae data'r Rhaglen Mesur Plant yn dangos cyfraddau gordewdra uwch mewn grwpiau o blant o rai grwpiau ethnig leiafrifol[7]. Gan mai gordewdra a bod dros bwysau yw'r prif risgiau byd-eang ar gyfer marwolaeth[8], gall y polisi gael effaith fwy cadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y grwpiau hyn os yw'n llwyddo i gefnogi defnyddwyr i wneud dewisiadau bwyd iachach. Y maes mwyaf cymhleth i'w ystyried yw effaith y rheoliadau ar bobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, o ystyried y posibilrwydd y bydd cyfyngiadau ar hyrwyddo yn cynyddu cost y bwydydd sydd o fewn cwmpas y Rheoliadau. Ar adeg eu prynu, mae'n ymddangos bod cynigion hyrwyddo yn arbed arian i bobl. Fodd bynnag, mae data'n dangos eu bod yn ychwanegu 20%[9] at faint o faint o fwyd a diod mae pobl yn eu prynu. Mae hyn yn cyfateb i £75 o wariant ychwanegol y flwyddyn ar gyfer yr aelwyd arferol. Mae hyn, yn ei dro, yn cael ei wrthbwyso gan £61 o bryniant nad yw'n gynyddrannol, sy'n golygu bod cyfanswm effaith hyrwyddiadau aml-brynu yn wariant ychwanegol cyffredinol o £14[10]. Er bod pobl efallai'n prynu eitemau a hyrwyddir ar y dybiaeth y bydd y nwyddau ychwanegol a brynir yn cael eu gwrthbwyso gan yr angen i brynu llai yn ddiweddarach (gydag arbedion cost hirdymor), nid yw hyn yn ystyried y penderfyniad isymwybodol i fwyta

---

[5] Dadansoddiad o rôl hyrwyddo ar sail prisiau ar eitemau bwyd a diod sy'n cael eu prynu i'r cartref ac sy'n cynnwys lefel uchel o siwgr; prosiect ymchwil ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Lloegr a gynhaliwyd gan Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidenceinto-action

[6] Ibid.

[7] Rhaglen Mesur Plant genedlaethol (2019). Rhaglen Mesur Plant genedlaethol, Blwyddyn Ysgol Cymru 2018/19. Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-mesur-plant-cymru2/rmp-2018-19/rhaglen-mesur-plant-adroddiad-2018-19/

[8] Sefydliad Iechyd y Byd, Global health risks: Mortality and burden of disease attributable to selected major risks. 2009, Sefydliad Iechyd y Byd: Genefa

[9] Sugar reduction: from evidence into action - GOV.UK

[10] Hill, R. et al. Kantar. An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar.2019

mwy pan fydd mwy ar gael. Gall hyn arwain at fwyta ac yfed mwy, yn amlach, a allai olygu bod pobl yn cael gormod o galorïau[11].

Mae'r effeithiau posibl ar y grŵp hwn wedi cael eu hystyried hefyd fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Rheoliadau hyn. Ein casgliad yw ein bod yn credu y bydd y Rheoliadau yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is, ond y gellid sicrhau a gwella effeithiau cadarnhaol arfaethedig y Rheoliadau ar gyfer pob grŵp poblogaeth trwy gyflwyno mesurau ychwanegol i gynyddu hygyrchedd a fforddiadwyedd bwydydd iachach. Bydd yr holl effeithiau yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o'n hadolygiadau ôl-weithredol.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am yr effaith benodol a ragwelir ar gyfer pob grŵp nodwedd warchodedig yn y tabl isod.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig**:

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi’n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol – mae bod dros bwysau neu'n ordew’n gyffredin gydol bywyd a bydd newidiadau’n helpu i greu canlyniadau iechyd cadarnhaol. | Mae cyffredinrwydd gordewdra yn wahanol ar draws grwpiau oedran.<br><br>Bydd plant a phobl ifanc ar eu hennill os gallant gynnal pwysau is o ganlyniad i'r ymyriadau sydd ar waith. Mae data o Raglen Mesur Plant 2022-23 yn dangos bod cyfran y plant sydd dros eu pwysau neu’n ordew ar lefel Cymru yn | Amherthnasol |

[11] Chandon P, Wansink B. (2002) When are stockpiled products consumed faster? A convenience-salience framework of post-purchase consumption incidence and quantity. J. Mark. Res. 39:321–35

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 13.4% a 11.4% yn y drefn honno[12].<br><br>Mae manteision y polisi'n codi'n bennaf wrth i iechyd wella pan fydd pobl yn hŷn. Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-2020) fod 61% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew, gyda 25% yn ordew[13]. Mae mynegai màs y corff (BMI) uwch yn ffactor risg mawr ar gyfer cyflyrau cronig amrywiol. Mae risg o'r cyflyrau hyn yn cynyddu gydag oedran. | |
| Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd) | Niwtral neu gadarnhaol – mae cysylltiad rhwng gordewdra ac anabledd. Mae lleihau gordewdra yn arwain at fuddion iechyd i bobl anabl. | Mae dadansoddiad gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr[14] yn awgrymu bod plant ag anableddau yn fwy tebygol o fod yn ordew na'r rhai heb anableddau. Mae gordewdra a bod dros bwysau ymhlith plant a phobl ifanc wedi cael eu cysylltu ag amrywiaeth o gyflyrau sy'n anablu hefyd, gan gynnwys anableddau dysgu, cyfyngiadau ar | Amherthnasol |

[12] Rhaglen Mesur Plant 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
[13] https://www.llyw.cymru/ffordd-o-fyw-oedolion-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-fawrth-2020 LLYW.CYMRU
[14] Obesity and disability: children and young people - GOV.UK (www.gov.uk)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | weithgarwch corfforol, spina bifida yn ogystal ag amhariadau clyweledol.<br><br>O ran oedolion, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn perygl o fod yn ordew, yn enwedig y rhai ag anawsterau dysgu[15], tra gall oedolion gordew ddatblygu cymhlethdodau sy'n arwain at anableddau oherwydd eu bod yn ordew. | |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Niwtral | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisïau'n cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. | Amherthnasol |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol – mae cysylltiad rhwng gordewdra a beichiogrwydd a mamolaeth a risgiau i iechyd. | Gan effeithio ar oddeutu 1 o bob 20 o fenywod yng Nghymru[16], mae gordewdra yn ystod beichiogrwydd yn broblem iechyd cyhoeddus gynyddol sy'n effeithio ar iechyd mamau a phlant ac yn gost i'r GIG. Mae'n gysylltiedig â babanod trymach, | Amherthnasol |

[15] Health and Care of People with Learning Disabilities - NHS England Digital
[16] Obesity in Pregnancy | Case Study | NCPHWR | Health Research

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mwy o ymyriadau geni, iechyd y baban yn waeth a mwy o debygolrwydd y bydd y baban yn tyfu i fod dros bwysau neu'n ordew. | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr lloches a Ffoaduriaid) | Niwtral neu gadarnhaol – mae gan rai grwpiau ethnig fwy o achosion o ordewdra a bwriedir i'r polisi hwn gael effaith gadarnhaol. | Mae data o'r Rhaglen Mesur Plant 2018/19[17] yn cynnwys archwiliad yn ôl dadansoddiad ethnig. Nid oedd hyn yn dangos gwahaniaeth sylweddol mewn lefelau gordewdra yn ystod plentyndod rhwng y grwpiau ethnig o flwyddyn i flwyddyn oherwydd niferoedd bach. Fodd bynnag, pan gyfunwyd y data dros 5 mlynedd, roedd nifer y plant a ddosbarthwyd yn ordew yn y grŵp ethnig Du (14.1%) a'r grŵp ethnig Tsieineaidd (13.1%) yn uwch na chyfartaledd Cymru (12.1%).<br><br>Mae data o Loegr[18] yn dangos mai oedolion Tsieineaidd oedd â'r cyfraddau isaf o ordewdra a bod dros bwysau | |

[17] https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-mesur-plant-cymru2/rmp-2018-19/rhaglen-mesur-plant-adroddiad-2018-19/
[18] Overweight adults - GOV.UK Ethnicity facts and figures (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (35.3%), gyda'r nifer uchaf o achosion ymhlith oedolion Du (73.6%). Mae ymchwil yn dangos bod gwahaniaethau mewn pwysau rhwng grwpiau hiliol yn codi oherwydd ffactorau amrywiol fel ffactorau amgylcheddol, ymddygiadau iechyd, statws economaidd-gymdeithasol a mynediad at ofal iechyd[19].<br><br>Mae gan bobl o wahanol grwpiau ethnig lefelau gwahanol o risg os ydynt yn datblygu cyflyrau sy'n gysylltiedig â gordewdra a bod dros bwysau. Er enghraifft, mae gan grwpiau ethnig Du a De Asiaidd fwy o risg o ddiabetes math 2 ar drothwy gordewdra is na phobl Wyn[20]. | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Niwtral | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi’n cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu'r | Amherthnasol |

[19] Obesity and ethnicity 090211 FINAL MG.doc (khub.net)

[20] Ethnic disparities in the major causes of mortality and their risk factors – a rapid review - GOV.UK (www.gov.uk)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | nodwedd warchodedig hon. | |
| Rhyw / Rhywedd | Niwtral | Mae data'r Rhaglen Mesur Plant ar lefel Byrddau Iechyd Lleol yn dangos bod cyfran ychydig yn uwch o fechgyn yn ordew nag o ferched (13.1% o'i gymharu ag 11.2%)[21].<br><br>Yng Nghymru, mae'r patrwm hwn o lefelau cynyddol o ordewdra ymhlith gwrywod i'w weld mewn oedolion hefyd. Mae mwy o ddynion (67%) na menywod (55%) dros bwysau neu'n ordew[22].<br><br>Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi'n cael effeithiau gwahanol yn dibynnu ar ryw i oedolion a phlant. | Amherthnasol |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Niwtral | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi'n cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. | |

[21] Rhaglen Mesur Plant 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
[22] Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019-20: Ffordd o Fyw Oedolion (LLYW.CYMRU)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Niwtral | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi’n cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. | Amherthnasol |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol – fel y nodwyd ar gyfer oedran uchod, mae bod yn ordew neu dros bwysau yn gyffredin ar draws plant a phobl ifanc a bydd newidiadau’n helpu i greu canlyniadau iechyd cadarnhaol. | Bydd plant a phobl ifanc ar eu hennill os gallant gynnal pwysau is o ganlyniad i'r ymyriadau sydd ar waith. Mae data o Raglen Mesur Plant 2022/23 yn dangos bod oddeutu chwarter plant Cymru yn ordew neu dros eu pwysau [23]. | Amherthnasol |
| Aelwydydd incwm isel | Er bod y polisi hwn yn anelu at gael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm isel o ystyried bod cyfraddau gordewdra uwch ar draws ardaloedd â lefelau amddifadedd uwch, rydym hefyd wedi ystyried yr | Mae'r Rhaglen Mesur Plant yn nodi bod nifer yr achosion o ordewdra yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ac yn sylweddol is yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig[24].<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n ordew neu dros eu pwysau yn yr | Fel yr amlinellwyd, mae hwn yn faes cymhleth i’w ystyried, a fydd angen asesiad pellach drwy adolygiadau ôl-weithredol. Ni theimlir bod angen mesurau lliniaru ar hyn o bryd, ond mae'n debygol y bydd cyflwyno mesurau pellach i gynyddu argaeledd a hygyrchedd |

[23] https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-mesur-plant-cymru2/rmp-2018-19/rhaglen-mesur-plant-adroddiad-2018-19/
[24] Rhaglen Mesur Plant 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effeithiau negyddol posibl o ran cost y bwyd sydd o fewn cwmpas y Rheoliadau. Ein hasesiad ar hyn o bryd yw y bydd y Rheoliadau yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y grŵp hwn, ond byddwn yn parhau i asesu hyn ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu. | ardaloedd mwyaf difreintiedig (67%) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (57%). Mae'r bwlch hwn hyd yn oed yn uwch ar draws lefelau gordewdra gyda'r mwyaf difreintiedig (33%) o'i gymharu â'r lleiaf difreintiedig (20%)[25].<br><br>Mae ystyriaethau hefyd o ran cost y cynigion, yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddo ar sail pris. Er ei bod yn ymddangos bod cynigion hyrwyddo yn arbed arian i bobl, mae data'n dangos eu bod yn arwain at gynnydd cyffredinol yng ngwariant aelwydydd[26]. Er bod pobl efallai'n prynu eitemau a hyrwyddir ar y dybiaeth y bydd y nwyddau ychwanegol a brynir yn cael eu gorbwyso drwy brynu llai yn ddiweddarach (gydag arbedion cost hirdymor), nid yw hyn yn ystyried y penderfyniad isymwybodol i fwyta | bwydydd iachach yn gwella effeithiau cadarnhaol arfaethedig y Rheoliadau ar y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. |

[25] [Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019-20: ffordd o fyw oedolion (llyw.cymru)]

[26] Hill, R. et al. Kantar. An analysis of the role of price promotions on the household purchases of food and drinks high in sugar.2019

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mwy pan fydd mwy ar gael. Gall hyn arwain at fwyta ac yfed mwy, ac yn amlach, a allai olygu bod pobl yn cael gormod o galorïau[27]. | |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

Rydym yn rhagweld y gallai fod effaith ar fusnesau o ran Erthygl 10 (rhyddid mynegiant) ac Erthygl 1 o Brotocol 1 (diogelu eiddo) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith andwyol ar hawliau defnyddwyr o ganlyniad i'r cynnig polisi hwn.

Rhoddir ystyriaeth barhaus i effeithiau'r polisi ar hawliau dynol, drwy gynnal adolygiadau ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu.

**Hawliau Dinasyddion yr UE / AEE a'r Swistir**

Ystyrir na fydd y cynigion yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y mae eu hawliau'n cael eu diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion

**Preswyliad –** yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n gysylltiedig â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am breswyliad, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio;

Nid yw'n berthnasol i'r polisi hwn.

**Cyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol** - cydnabyddiaeth barhaus i gymwysterau proffesiynol a gafwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Nid yw'n berthnasol i'r polisi hwn.

**Mynediad i systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd

Nid yw'n berthnasol i'r polisi hwn.

[27] Chandon P, Wansink B. (2002) When are stockpiled products consumed faster? A convenience-salience framework of post-purchase consumption incidence and quantity. J. Mark. Res. 39:321–35

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Nid yw'n berthnasol i'r polisi hwn.

**Hawliau gweithwyr** - Gwarantir gweithwyr a phobl hunangyflogedig sydd wedi'u cynnwys o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yr un hawliau ag yr oeddent yn eu mwynhau pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio ag wynebu gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd, a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU.

Nid yw'n berthnasol i'r polisi hwn.